***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 27. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 5

## TRAFODIADAU EIDDO PRESWYL CYFRADDAU UWCH

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Atod. 5 applied (ynghyd â modifications) (1.4.2018) by Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/126), rhlau. 1(2), **12**

## RHAN 5

## DARPARIAETHAU ATODOL

*Setliadau ac ymddiriedolaethau noeth*

27 (1) Mae is-baragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad tir—

(a) os yw prif destun y trafodiad ar ffurf prif fuddiant mewn un annedd neu ragor,

(b) os yw'r prynwr (neu un ohonynt) yn gweithredu fel ymddiriedolwr setliad, ac

(c) os bydd gan fuddiolwr, o dan delerau'r setliad, hawl i—

(i) meddiannu'r annedd neu'r anheddau am oes, neu

(ii) incwm a enillir mewn cysylltiad â'r annedd neu'r anheddau.

(2) Mae is-baragraff (3) hefyd yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad tir—

(a) os yw prif destun y trafodiad ar ffurf cyfnod o flynyddoedd absoliwt mewn annedd, a

(b) os yw'r prynwr (neu un ohonynt) yn gweithredu fel ymddiriedolwr ymddiriedolaeth noeth (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraffau 2(1) a (2) o Atodlen 8).

(3) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad tir, mae buddiolwr y setliad neu'r ymddiriedolaeth noeth (yn hytrach na'r ymddiriedolwr) i'w drin at ddibenion yr Atodlen hon fel y prynwr (neu fel un ohonynt).

(4) Mae paragraffau 3(3) a 4 o Atodlen 8 (trin ymddiriedolwyr fel y prynwr) yn cael effaith yn ddarostyngedig i is-baragraff (3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 5 para. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 5 para. 27 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 27.